Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell drwy fideogynadledda ar ddydd Mawrth, 15 Hyfref 2024

YN BRESENNOL: Mr Alan Davies (Cadeirydd) y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Maldwyn Lewis ynghyd â Mr Andrew Blackmore

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Bryan Davies, Gareth Davies a Gareth Lloyd

Archwilio Cymru: Mr Jason Blewitt

Swyddogion yn bresennol: Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro; Mrs Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol, Mr Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael, Mr Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad, Mr Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cymorth Cynnar, Mrs Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal, Mrs Elen James, Rheolwr Corfforaethol, Mrs Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes a'r Prif Swyddog Addysg, Mr Gareth Langland, Rheolwr Corfforaethol - Gwella Ysgolion, Mr Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil, Mrs Sarah Groves-Phillips, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cynllunio,Mrs Katy Sinnett-Jones, Swyddog Llywodraethu; Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10:00 am -11:55pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheuriodd y Cynghorwyr Rhodri Evans, Mark Strong ynghyd â Mrs Caroline Whitby a Ms Alison Rees, Archwilio Cymru am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

2 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dim.

3 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Datgelodd y Cynghorydd Wyn Evans fuddiant personol yn eitem 7 yn yr agenda.

Datgelodd y Cynghorydd Keith Henson fuddiant personol yn eitem 8 yn yr agenda.

4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2024 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

CYTUNWYD i gadarnhau bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2024 yn gywir.

Materion yn Codi
Dim.

5 Cofnod o Gamau Gweithredu

CYTUNWYD i nodi cynnwys Cofnod o Gamau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel y'i cyflwynwyd.

6 Adroddiadau'r Rheoleiddwyr ac Arolygiaeth ac Ymatebion y Cyngor

Ystyriwyd Adroddiadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaethau ac Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion. Roedd yr Adroddiad yn amlinellu Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaethau ynghyd ag ymatebion y Cyngor ynghylch y cynnydd a wnaed o ran y cynigion a'r argymhellion. Roedd yr adroddiad mewn tair rhan:

a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
b) Unrhyw waith lleol ynghylch risg a gyflwynwyd / a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru

Y Sefyllfa bresennol

a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
    - Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru Chwarter 1

b) Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd/a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

c) Furflenni Ymateb Rheoli

    - Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad - Persbectif a Chanlyniadau Defnyddwyr Gwasanaeth
    - Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol
    - 'Craciau yn y Sylfeini?' Diogelwch Adeiladau yng Nghymru
    - Amser am newid - Tlodi yng Nghymru
    - Adolygiad Dilynol y Gwasanaeth Cynllunio
    - Gosod amcanion llesiant
    - Llamu Ymlaen – Adolygiad Rheoli Asedau Strategol
    - 'Cyfle wedi'i Golli' – Mentrau Cymdeithasol

d) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru

- Digidol o fwriad? Gwersi o'n hadolygiad o strategaethau digidol ar draw Cynghorau yng Nghymru (Atodiad 4)
    - *Adroddiad Cyngor Sir Ceredigion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24/01/2024 - Adroddiad Adolygiad Strategaeth Ddigidol Archwilio Cymru - Adolygiad Strategaeth Ddigidol – Cyngor Sir Ceredigion*

- Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau (Atodiad 5)
    - *Adroddiad Cyngor Sir Ceredigion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 14/03/2024 - Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: persbectif a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth - Cyngor Sir Ceredigion*

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i: -
(i) nodi adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaethau;
(ii) nodi ymateb y Cyngor (Ffurflenni Ymateb y Rheolwyr / Sefydliad) a mewnbwn y Swyddogion ac Archwilio Cymru yn y cyfarfod

-

7 Arolygiadau Estyn, blwyddyn academaidd 2023/24

Yn dilyn ailddechrau arolygiadau Estyn gydag ymweliadau peilot ym misChwefror 2022, mae arolygiadau Estyn wedi mynd i mewn i flwyddyn olaf y cylch hwn. Mae'r arolygiadau ysgolion wedi bod yn gadarnhaol, ac Awdurdod Lleol Ceredigion oedd yr unig awdurdod lleol yng Nghymru heb unrhyw ofynion dilynol ar ôl arolygiadau.

Arolygwyd yr ysgolion canlynol yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24:

- Ysgol Cenarth
- Ysgol Felinfach
- Ysgol Llanfarian
- Ysgol Rhos Helyg
- Ysgol Talgarreg
- Ysgol Syr John Rhys
- Ysgol Gymunedol Tal-y-Bont
- Ysgol Llannon

CYTUNWYD i nodi'r adroddiadau cadarnhaol er gwybodaeth.

8 Adroddiadau Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch Gwasanaethau Rheoleiddiedig Cyngor Sir Ceredigion

Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) yw'r rheoleiddiwr annibynnol Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Arolygiaeth yn cofrestru ac yn arolygu gwasanaethau gan gymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru.

Mae gan Gyngor Ceredigion sawl gwasanaeth rheoleiddiedig sy'n cael eu harolygu'n rheolaidd gan Arolygiaeth Gofal Cymru, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Cartref Gofal Preswyl Bryntirion
- Cartref Tregerddan Residential Care Home
- Cartref Gofal Preswyl Min y Môr
- Cartref Gofal Preswyl Hafan Deg
- Cartref Gofal Preswyl Y Hafod
- Cartref Gofal Preswyl Hafan y Waun
- Gwasanaeth Gofal a Galluogi wedi'i Dargedu
- Gwasanaeth Maethu

Mae'rarolygiadau yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

1. Llesiant
2. Gofal a chymorth
3. Yr Amgylchedd
4. Arweinyddiaeth a Rheoli

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn unigolyn yr ystyrir ei fod yn gymwys o dan adran 21, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Gall Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddirprwyo'r swyddogaeth hon ac yng Nghyngor Sir Ceredigion, mae'r swyddogaeth wedi'i dirprwyo i'r Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Uniongyrchol.

Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol rôl hanfodol o ran monitro ansawdd ac mae ymweliadau monitro rheolaidd yn cael eu cwblhau gyda phob gwasanaeth. Caiff yr adroddiadau monitro eu hystyried a'u hadolygu mewn cyfarfodydd rheolaidd â'r Cyfarwyddwr. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Monitro Ansawdd mewnol sydd hefyd yn cynnal ymweliadau monitro rheolaidd ar gyfer pob un o wasanaethau rheoleiddiedig y Cyngor.

Mae'r Adroddiadau arolygu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad yn nodi bod gwasanaethau'r Cyngor yn gweithredu o safon ym meysydd Llesiant, Gofal a Chymorth ac arweinyddiaeth a rheoli. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â sawl amgylchedd. Mae'r Cyngor yn cymryd y materion hyn o ddifrif ac mae buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cael ei wneud i wella'r amgylchedd yn y mannau hyn ac i fodloni'r gofynion perthnasol o ran diogelwch tân. Mae hyn wedi arwain at gyhoeddi Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yng nghyswllt Rheoliad 44 – Amgylchedd Safle. Mae cydweithio cadarnhaol rhwng adrannau'r Cyngor wedi arwain at ddatblygu rhaglen waith fanwl ac mae'r gwaith o weithredu'r

rhaglen yn mynd rhagddo. Hefyd, darperir diweddariadau rheolaidd ynglŷn â'r gwaith gwella a'r cynllun gweithredu.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i:-
(i) Nodi cynnwys yr adroddiada ac adroddiadau arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n cyd-fynd â'r adroddiad; a
(ii) gofyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ystyried y canlynol:
amserlen y gwaith cynnal a chadw sy'n cael ei wneud yng nghartrefi preswyl y Cyngor i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau mewn modd amserol; canfod nifer y gwelyau sydd ar gael yn y sector preifat i gael trosolwg gwell o'r holl welyau sydd ar gael yn y Sector Lleol a Phreifat yn y Sir; yr angen i ystyried darparu cartrefi gofal newydd yn y dyfodol a lobïo Llywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol tebyg i'r cynllun cyllido Ysgolion yr 21ain Ganrif.

9 Huanaasesu arfer dda a gwerthuso effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Yn dilyn gweithdy a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2024 ystyriwyd hunanasesiad drafft a gwerthusiad o adolygiad effeithiolrwydd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn dilyn y gweithdy, lluniwyd cynllun gweithredu o'r Hunanasesiad. Bydd hyn yn cael ei fonitro a bydd cynnydd ar y camau gweithredu yn cael ei ddiweddaru a'i gyflwyno yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i: -
(i) nodi cynnwys y ddogfen ddrafft '*Hunanasesiad arfer da';*
(ii) nodi cynnwys y ddogfen 'Gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd y pwyllgor archwilio'; a
(iii)nodi'r Cynllun Gweithredu Hunanasesu 2023-2024

10 Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/24 - 30/6/24

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ar Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarter 1. Cyflwynwyd yr adroddiad i sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adran Archwilio Mewnol yn gwneud gwaith digonol a phriodol er mwyn rhoi sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn, gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion.

CYTUNWYD nodi gwaith a wnaed a sefyllfa bresennol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

11 Hunanasesiad Archwilio Mewnol 2023/24

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn disodli Cod 2006 ar gyfer Archwilio Mewnol. Daeth hwn i rym ym mis Ebrill 2013. Rhaid cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Nodyn Cydymffurfio er mwyn sicrhau bod arferion archwilio mewnol cywir yn cael eu cymhwyso.

Mae'r Nodyn Cymhwyso yn cynnwys rhestr wirio a ddatblygwyd i ddiwallu'r gofynion fel y'u hamlinellir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 1311 a 1312 ar gyfer hunanasesiadau cyfnodol fel rhan o'r rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwelliant. Mae'n ymgorffori gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ogystal â'r Nodyn Cymhwyso er mwyn cwmpasu'r ddwy ddogfen mewn ffordd gynhwysfawr.
Nodwyd dau faes i'w gwella. Roedd un o'r rhain wedi cael ei gario drosodd o'r flwyddyn ddiwethaf. Safon 1210: 5.3.1. A yw'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio yn meddu ar gymhwyster proffesiynol megis CMIIA/CCAB?
Mae'r CMIA wedi gwneud cynnydd sylweddol trwy gwblhau cymhwyster CIA a bydd yn cofrestru i'r CMIIA ar ôl cwblhau Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth Lefel 4.

Roedd yr ail gam gweithredu yn ymwneud â Safonau Byd-eang newydd Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol a sicrhau gweithredu'r deunydd newydd a ddatblygwyd gan y Bwrdd Ymgynghorol Safonau Archwilio Mewnol sy'n dod i rym ar 01/04/2025.

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad.

12 Cofrestr Risgiau Corfforaethol Cwarter 1 2024/25

Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod y risgiau a nodwyd gan uwch reolwyr yn cael eu rheoli'n briodol. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei rheoli'n briodol.

Cynhaliwyd adolygiad o statws diweddaraf y risgiau yng nghyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth ar 18.09.24 lle trafodwyd y rhai y gellir eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r rheiny y gellir eu his-gyfeirio o'r Gofrestr. Cytunwyd ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiweddaraf.

Isgyfeirio o fod yn risg gorfforaethol i fod yn risg i'r gwasanaeth
Dim

Uwchgyfeirio o fod yn risg i'r gwasanaeth i fod yn risg gorfforaethol
Dim

Newidiadau sgôr risg corfforaethol
O ganlyniad i gamau lliniaru llwyddiannus, roedd sgôr y risg gorfforaethol newydd R025: Mesurau Diogelwch a Gwarchod Tân mewn Eiddo'r Cyngor wedi lleihau o 25 i 20. Roedd yr holl risgiau eraill wedi'u hadolygu ac roeddent yn cynnwys y statws RAG diwygiedig o ran camau lliniaru a sylwadau wedi'u diweddaru.

Mae'r dyddiadau pan wnaeth y Pwyllgor Craffu adolygu pob risg gorfforaethol wedi'u cynnwys ar y dudalen grynodeb.
Nodwyd eu bod wedi craffu ar yr holl Risgiau Corfforaethol.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr ar sgorau risg, CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

13 Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth (2023-2024)

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â gweithgarwch Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Mae'r adroddiad wedi'i rannu i'r adrannau canlynol:

1.Cyflwyniad – amlinelliad o waith y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a rhwymedigaethau'r Cyngor o dan bob un o'r polisïau a gwmpesir gan yr adroddiad hwn.
2.Canmoliaeth – manylion yr holl ganmoliaeth a basiwyd i'r Tîm Cwynion a Rhyddid
Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn.
3.Cwynion – data ynghylch nifer a math y cwynion a dderbyniwyd, canlyniadau'r ymchwiliadau a gynhaliwyd, perfformiad y Cyngor wrth ystyried amserlenni rhagnodedig a gwybodaeth yn ymwneud â'r gwersi a nodwyd. Mae enghreifftiau o rai o'r gwersi a nodwyd wedi'u cynnwys ar ddiwedd yr adroddiad.
4.Gweithgarwch yr Ombwdsmon – manylion o holl atgyfeiriadau'r Ombwdsmon, eu canlyniadau a'u gwybodaeth ynghylch y datrysiadau Penderfyniad Cynnar a/neu Setliad Gwirfoddol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor yn ystod 2023-2024.
5. Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA) – nifer y ceisiadau am wybodaeth a dderbyniwyd gan y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd, manylion perfformiad y Cyngor gyda'r amserlenni statudol a'r data cymharol o adroddiadau blaenorol.

Mae'r Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon"), wedi'i ddyddio 9 Medi 2024, yn cyd-fynd â'r adroddiad hwn. Mae llythyr yr Ombwdsmon yn rhoi manylion penodol am yr holl weithgarwch sy'n ymwneud â Cheredigion, yn ogystal â pherfformiad awdurdodau lleol eraill ledled Cymru

Er mai hon yw'r ail flwyddyn yn olynol lle mae nifer atgyfeiriadau'r Ombwdsmon wedi gostwng o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol; cydnabyddir bod gan y Cyngor cyfradd gymharol uchel o gytundebau Datrysiad Cynnar/Setliad Gwirfoddol. Mae hyn wedi gostwng yn sylweddol ers y llynedd.

Mae heriau'n parhau o ran rheoli cymhlethdod rhai cwynion ac mae cynnydd amlwg mewn cwynion a gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth/ Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR) o'i gymharu â'r hyn a dderbyniwyd yn ystod 2022-2023.

O ganlyniad i'r anawsterau a nodwyd mewn adroddiadau cynt am ymdrin â chwynion a rheoli ceisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a RhGA, cytunodd y Grŵp Arweinyddiaeth ar nifer o gamau corfforaethol sy'n canolbwyntio ar wella gallu'r Cyngor i ymdrin yn effeithiol â'r materion hyn mewn ffordd gadarn a hyblyg. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau'r camau hyn ac roedd yn cael ei fonitro a'i adolygu bob chwarter.



Ymholiadau (wedi'u prosesu gan y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth)

Crynodeb

• Cofnodwyd llai o ganmoliaeth yn ystod 2023-2024 ac er bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i wella'r ffordd y caiff y gweithgarwch hwn ei reoli, mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth wrthi'n codi ymwybyddiaeth staff ar draws y Cyngor ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod pob neges o werthfawrogiad yn cael ei chofnodi. Roedd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys cyflwyno Ffurflen Ganmoliaeth ar-lein ar wefan y Cyngor, templed misol i'w ddychwelyd i'w rannu rhwng gwasanaethau (nid yw'n weithredol eto) ac mae disgwyl i ymgyrch gyfathrebu fewnol gael ei chynnal yn ystod yr wythnosau nesaf i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cofnodi canmoliaeth.

• Gwnaeth y Tîm Cwynion a'r Rhyddid Gwybodaeth reoli llai o ymholiadau yn ystod y cyfnod adrodd hwn, yn bennaf trwy eu cyfeirio at y gwasanaethau perthnasol i'w datrys yn gynnar cyn cychwyn y gweithdrefnau cwynion. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o ymholiadau yn parhau i gael eu prosesu a'u rheoli gan y Tîm Cwynion a'r Rhyddid Gwybodaeth, er mai dyma fel arfer pan fydd unigolyn yn ceisio gwneud cwyn, ond efallai na fydd y gweithdrefnau cwynion yn berthnasol, am ba bynnag reswm.

• Cydnabyddir bod angen gwaith gan reolwyr i atal cwynion rhag gwaethygu'n ddiangen i Gam 2, dim ond oherwydd nad oedd yn bosibl ymateb o fewn yr amserlen a ragnodwyd o ddeg diwrnod gwaith. Mae canllawiau, cyngor a hyfforddiant ar gael i bob swyddog mewn perthynas â rheoli cwynion yn effeithiol.

• Mae'r Tîm Cwynion a'r Rhyddid Gwybodaeth yn parhau i wynebu heriau wrth fodloni gofynion cynnydd yn nifer y cwynion a gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth / RhGA. Mae'n galonogol bod llawer llai o ymyriadau'r Ombwdsmon yn ystod 2023-2024, er y cydnabyddir y gellir gwneud rhagor o waith i leihau hyn yn y flwyddyn sydd i ddod.

• Roedd cwynion am y Gwasanaeth Casglu Sbwriel a materion Cynllunio yn parhau i fod yn feysydd gwasanaeth sy'n derbyn y nifer uchaf o gwynion. Dylid nodi bod y gwasanaethau hyn yn tueddu i ddenu cwynion, yn ôl eu natur, A dylid ystyried nifer y cwynion a dderbyniwyd yng nghyd-destun lefel y gweithgarwch y mae'r ddau faes gwasanaeth hyn yn eu rheoli.

• Gwnaed gwelliannau sylweddol i amserlenni'r Cyngor o ran cydymffurfio â therfynau amser y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA). Er bod lle i wella o hyd, ymatebodd y Cyngor i 80% o'r holl geisiadau o fewn amserlenni rhagnodedig yn ystod 2023-2024.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad hwn cyn ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 5 Tachwedd 2024.

14 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24

Adroddwyd bod gweithdy gyda swyddogion ac aelodau pwyllgor perthnasol wedi ei gynnal ar 6 Rhagfyr 2023. Yn y gweithdy, ystyriwyd:
• cynnydd ar y camau gweithredu a nodwyd yn Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu 2023-24.
• unrhyw dystiolaeth wedi'i diweddaru sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen.
• Camau gweithredu a nodwyd yn flaenorol.

CYTUNWYD hefyd i ddiwygio'r system sgorio yn y ddogfen i fod allan o 5 yn hytrach na 10 fel yn y blynyddoedd blaenorol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24 wedi'i ddrafftio ers hynny ac mae ei gymeradwyo.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023-24 yn amodol ar ddiwygiadau i A1.4.

Adroddwyd hefyd y byddai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor a'r Cyngor, ynghyd â'r Datganiad Cyfrifon, ym mis Tachwedd 2024.

15 Datganiad Llywodraethu Blynyddol Diwygiedig

Mae'r tîm llywodraethu wedi bod yn adolygu'r ddogfennaeth lywodraethu ar gyfer y Cyngor ac wedi cynnal adolygiad o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yng ngaeaf 2023 a arweiniodd at greu'r Fframwaith Llywodraethu newydd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024.

Yn dilyn cyhoeddi'r Fframwaith Llywodraethu yn llwyddiannus, dechreuodd y tîm llywodraethu adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Gwnaed ymchwil ar Ddatganiadau Llywodraethu Blynyddol awdurdodau lleol Cymru a nodwyd bod gan lawer ohonynt ddogfennau mwy cryno gyda gwybodaeth gryno am eu trefniadau llywodraethu. Gweler enghreifftiau ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 Cyngor Ynys Môn, Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23 Cyngor Sir Conwy a Chyngor Sir Ddinbych.

Crëwyd y fformat newydd ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac mae'r ddogfen wedi'i lleihau o'r 36 tudalen cyfredol i 17 tudalen. Gwnaed hyn drwy gyddwyso'r wybodaeth i baragraff byr o dan bob egwyddor wrth gyfeirio at ddolenni i ddogfennau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi. Roedd y swyddogaeth a'r broses lywodraethu lawn wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Llywodraethu.
Mae Fframwaith Llywodraethu Da 2016 CIPFA mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi:
"7.3 Dylai'r datganiad llywodraethu blynyddol ddarparu cyfathrebu ystyrlon ond byr ynghylch yr adolygiad o lywodraethu sydd wedi digwydd, gan gynnwys rôl y strwythurau llywodraethu dan sylw (megis yr awdurdod, yr archwiliad a phwyllgorau eraill). Dylai fod ar lefel uchel, yn strategol ac wedi'i hysgrifennu mewn arddull agored a darllenadwy.
7.4 Dylai'r datganiad llywodraethu blynyddol ganolbwyntio ar ganlyniadau a gwerth am arian ac ymwneud â gweledigaeth yr awdurdod ar gyfer yr ardal. Dylai ddarparu asesiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r awdurdod wrth gefnogi'r canlyniadau a gynlluniwyd - nid disgrifiad ohonynt yn unig. Crynhoir elfennau allweddol trefniadau llywodraethu awdurdod yn yr adran nesaf.
7.5 Dylai'r datganiad llywodraethu blynyddol gynnwys y canlynol:
cydnabod cyfrifoldeb dros sicrhau bod system lywodraethu gadarn (gan ymgorffori'r system rheolaeth fewnol) a chyfeiriad at god llywodraethu'r awdurdod,
cyfeiriad at ac asesu effeithiolrwydd elfennau allweddol y fframwaith llywodraethu a rôl y rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu; megis yr awdurdod, y gweithredwr, y pwyllgor archwilio, archwilio mewnol ac eraill fel y bo'n briodol,
barn ar lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei ddarparu a bod y trefniadau'n parhau i gael eu hystyried yn addas i'r diben yn unol â'r fframwaith llywodraethu,
cynllun gweithredu cytunedig sy'n dangos camau a gymerwyd, neu a gynigir, i ddelio â materion llywodraethu sylweddol"
cyfeiriad at sut mae materion a godwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol o'r flwyddyn flaenorol wedi'u datrys,
Casgliad – ymrwymiad i fonitro gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf."

Mae Canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar Ddemocratiaeth mewn Prif Gynghorau yn nodi y gellir defnyddio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol: fel teclyn:

- ar gyfer gwelliant corfforaethol;
- gwerthuso cryfderau a gwendidau yn y fframwaith llywodraethu; a
- fel rhan o gynllun gweithredu blynyddol

Mae ffurf newydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i ysgrifennu i grynhoi'r pwyntiau a'i wneud yn fwy apelgar i ddarllenwyr ac yn hawdd ei ddilyn.

Y prif newidiadau:

- Lleihau ailadrodd gwybodaeth yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Fframwaith Llywodraethu.
-Ychwanegu mwy o ddolenni at ddogfennau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi
-Dileu dyddiadau pwyllgorau a'u disodli gyda pharagraffau sy'n crynhoi'r gwaith a wnaed mewn pwyllgorau.
-Lleihau gwybodaeth mewn pwyntiau bwled a thablau a'u disodli gan grynodeb byr.

CYTUNWYD i gymeradwyo fformat newydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

16 Adroddiad Hunanasesu Cyngor Sir Ceredigion 2023/24 drafft

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Hunanasesu Perfformiad Drafft.

Datblygwyd yr Adroddiad drwy asesu amrywiaeth eang o dystiolaeth gan gynnwys adroddiadau ac adolygiadau mewnol, Adroddiadau Rheoleiddio ac Arolygu Allanol ac yn allweddol, gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori. Mabwysiadodd y Cyngor gyfres o gwestiynau allweddol neu "Brif Lwybrau Ymholi" i sicrhau bod y broses yn canolbwyntio ar ganlyniadau, golwg draws-sefydliadol ar berfformiad a'i bod yn seiliedig ar dystiolaeth. Cynhaliwyd gweithdai yn ystod mis Ebrill a mis Mai gydag Aelodau a Swyddogion y Cyngor i werthuso perfformiad cyfredol, y cyfleoedd i wella, a'r camau penodol a fwriadwyd eu cymryd. Cofnodwyd y canfyddiadau yn ein dogfen Matrics Hunanasesu, a ddefnyddiwyd i helpu cynhyrchu'r Adroddiad Hunanasesu a'r Cynllun Gweithredu, ac roeddent ar gael ar gais.

Er mai'r Adroddiad Hunanasesu yw'r allbwn allweddol o'r broses, mae'r gwaith o wella canlyniadau yn weithgaredd parhaus drwy gydol y flwyddyn. Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn cynnal ymgynghoriad i gefnogi hunanasesu, rydym yn casglu tystiolaeth i lywio'r gweithdai, rydym yn cyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu Hunanasesu ac mae cynnydd tuag at gwblhau yn cael ei fonitro.

Mae'n yn bwysig nodi bod yr Adroddiad yn cyflawni gofynion y ddau:

• Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021– Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad

• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gosod ac adolygu cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol

Y camau nesaf

Adroddwyd y byddai'r Adroddiad Hunanasesu Drafft yn cael ei ddiweddaru yn seiliedig ar unrhyw argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a byddai'r fersiwn derfynol yn cael ei adrodd yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2025.

CYTUNWYD i gymeradwyo'r Adroddiad Hunanasesu Drafft fel y'i cyflwynwyd.

17 Canlyniadau Proffil Perfformiad Awdurdodau Lleol

Roedd Data Cymru wedi datblygu teclyn data perfformiad newydd i gefnogi awdurdodau lleol i ddeall eu perfformiad cyffredinol yn well ac i gefnogi Asesiadau Perfformiad Panel a ddechreuodd ym mis Medi 2024.

Enw'r teclyn newydd yw Proffil Perfformiad Awdurdodau Lleol (PPALl) ac mae'n cynnwys detholiad o 34 o fesurau perfformiad allweddol ar draws 11 thema, ynghyd ag amrywiaeth o ddata cyd-destunol sy'n darparu cyflwyniad o'r cefndir. Mae'r Proffil ar gael fel dangosfwrdd Power BI yn unig, nid oes fersiwn copi papur.

Un o brif ddefnyddiau PPALl yw cefnogi'r cyfoedion sy'n ymgymryd ag Asesiadau Perfformiad Panel i ddeall sut mae'r Awdurdod Lleol yn perfformio ar hyn o bryd. Defnyddiwyd hwn gan y Panel mewn Asesiad Perfformiad Panel diweddar yng Ngheredigion rhwng 30 Medi a 3 Hydref.

Bydd y Proffil Perfformiad Awdurdodau Lleol yn parhau i gael ei ddatblygu yn y dyfodol, felly bydd yr ystod o fesurau sydd wedi'u cynnwys a'r gweithrediad defnydd yn datblygu a'i gwella ymhellach. Ar hyn o bryd mae peth cyfyngiadau o ran cyhoeddi data'r teclyn, er enghraifft ni chaniateir i ni gyhoeddi canlyniadau awdurdodau lleol eraill heb eu caniatâd, fodd bynnag, y gobaith yw y bydd y cyfyngiadau hyn yn cael eu gwaredu'n fuan.

Roedd y diweddariad mwyaf diweddar o'r PPALl ar 10 Medi ac roedd y canfyddiadau cyffredinol yn dangos taw:

•Ceredigion oedd â'r nifer uchaf ond un o fesurau perfformiad yn y chwartel uchaf gyda 13 allan o 34 mesur.
• Roedd gan Geredigion y nifer uchaf ar y cyd o fesurau perfformiad yn y chwartel uchaf a'r chwartel canol uchaf gyda 25 o'r 34 mesur.
•Roedd 73.5% o fesurau Ceredigion yn y chwartel canol uchaf ac uchaf. 67.6% oedd yr awdurdod agosaf nesaf. (Mae cyfanswm y mesurau ar gyfer pob awdurdod lleol yn amrywio ychydig oherwydd mân wahaniaethau mewn gwasanaethau a ddarperir, megis ar gyfer yr awdurdodau hynny a oedd wedi cadw eu stoc tai).

•Roedd perfformiad Ceredigion hefyd wedi gwella o ran y 21 mesur (neu 65.6%) yn y chwartel canol uchaf ac uchaf yn y canlyniadau blaenorol.
•Ar y cyfan, mae gan Geredigion 13 mesur yn y chwartel uchaf, 12 yn y chwartel canol uchaf, 2 yn y chwartel canol isaf a 7 yn y chwartel isaf.

I gloi, adroddwyd, er gwaethaf yr heriau sylweddol y mae Ceredigion yn eu hwynebu fel un o'r awdurdodau a gaiff y cyllid lleiaf, ynghyd â'r heriau sy'n ymwneud â gwledigrwydd a bod yn brin ei boblogaeth, bod y canlyniadau hyn yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol nad oedd y Cyngor yn unig yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol ond hefyd yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

CYTUNWYD i nodi Canlyniadau Proffil Perfformiad yr Awdurdodau Lleol fel y'i cyflwynwyd.

18 Blaenraglen Waith

CYTUNWYD i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar nodi bod byddai'r eitem ar Hunanasesiad Y Fenter Twyll Cenedlaethol Archwilio Mewnol yn cael ei chyflwyno ddwywaith y flwyddyn ac nid yng nghyfarfodydd ar 29 Ionawr 2024 neu 26 Mawrth 2024; gan nad oedd y gwaith hunanasesu wedi dechrau hyd yma.

19 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

None.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 28 Tachwedd 2024

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____